**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 6 Gorffennaf 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 21 Gorffennaf 2021 |

---

**PWNC**

Eitem 6:ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020-21, CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-24

---

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd a nodwyd cynnwys Adroddiad Blynyddol 2020-21, Cynllun Cydraddoldeb 2020-24.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mynegwyd ei bod yn ofyniad fod y Cyngor yn adrodd yn flynyddol ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 6 Gorffennaf 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 21 Gorffennaf 2021 |

**PWNC**

Eitem 7:POLISI CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIANT

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd y Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiant.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mynegwyd nad yw cael Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn angen statudol, ond mae yn un o'r Pwyntiau Gweithredu y cyflwynwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Statudol 2020-24 a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 10 Mawrth 2020.

Eglurwyd fod y Polisi yn cymryd lle'r Polisi Cydraddoldeb / Cyfle Cyfartal a'r Polisi Mynediad sydd wedi dyddio erbyn hyn.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 6 Gorffennaf 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 21 Gorffennaf 2021 |

## PWNC

Eitem 8:DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021

## PENDERFYNIAD

Mabwysiadwyd trefniadau a'r Protocol ar gyfer parhau i gyfarfod yn rhithiol hyn eu hadolygir yn unol â'r adroddiad.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Nodwyd fod Adran 47 o Ddeddf Lywodraeth Leol ac Etholiadau( Cymru ) 2021 yn sefydlu trefniadau sydd yn caniatáu i aelodau fynychu cyfarfodydd o bell . Eglurwyd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu trefniadau ar gyfer cyflawni hyn a'u cyhoeddi.

Gan fod y materion yma ynglŷn â threfnu cyfarfodydd y Cabinet gofynnwyd am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cynnal eu cyfarfodydd.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 6 Gorffennaf 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 21 Gorffennaf 2021 |

**PWNC**

Eitem 9:CYFUNDREFN ADDYSG DROCHI TUA AT 2032 A THU HWNT

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd gweledigaeth "Cyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt", ynghyd a'i weithredu, i fuddsoddi £1.1 miliwn o arian cyfalaf addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru i sefydlu safleoedd addysg drochi o'r newydd yn Nhywyn a Bangor, ynghyd â gwella'r cyfleusterau presennol ym Mhorthmadog yn unol â'r adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn ôl yn Ebrill 2019, cyflwynwyd adroddiad ar ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith gerbron y Cabinet, a chytunodd y Cabinet i gymeradwyo cyllid pontio er mwyn galluogi'r adran i weithredu cynllun peilot. Gweithredwyd y cynllun peilot a chynlluniwyd i gynnal ymchwil gyda'r bwriad o fynd yn ôl i'r Cabinet gyda chanfyddiadau'r ymchwil a fuasai yn llywio'r penderfyniad am strwythur y Canolfannau o'r dyfodol.

Yn sgil Covid-19 ni fu modd i gwblhau'r ymchwil fel y bwriadwyd, yn sgil ail-bwrpasu gwasanaeth mewn ymateb i'r pandemig. Pwysleisiwyd fod y canolfannau wedi gwneud gwaith arbennig dros y cyfnod Pandemig a bod y gwersi a ddysgwyd wedi ei gwreiddio i mewn i'r weledigaeth.

Pwysleisiwyd fod angen newid i'r ddarpariaeth drochi bellach, gan adeiladu ar lwyddiant y Canolfannau Iaith.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 6 Gorffennaf 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 21 Gorffennaf 2021 |

---

## PWNC

Eitem 10:PRIS CINIO YSGOLION CYNRADD, ARBENNIG A DILYNOL MEDI 2021

---

## PENDERFYNIAD

Cytunwyd i beidio cynyddu pris cinio Ysgol mewn Ysgolion Cynradd, Arbennig a Dilynol ym Medi 2021.

---

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Eglurwyd y byddai peidio cynyddu pris cinio ysgol yn unol â chwyddiant o Fedi 2021 yn golygu £22,890 o bwysau ar y gyllideb yn 2021/22 yr Adran Addysg. O ganlyniad mae'n briodol i sicrhau cadarnhad ffurfiol y Cabinet fod peidio cynyddu pris cinio ysgol eleni yn flaenoriaeth i'r Cyngor.

---

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan y Cynghorwyr – Dyfrig Siencyn, Craig ab Iago, Nia Jeffreys, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Catrin Wager gan fod ganddynt blant neu wyrion mewn ysgolion cynradd o fewn y Sir.

---

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 6 Gorffennaf 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 21 Gorffennaf 2021 |

---

**PWNC**

Eitem 11:ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS BLANT A CEFNOGI TEULUOEDD

---

**PENDERFYNIAD**

Nodi a derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 6 Gorffennaf 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 21 Gorffennaf 2021 |

**PWNC**

Eitem 12:ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

**PENDERFYNIAD**

Nodi a derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.